**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 27ain Mawrth 2001
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Val Feld

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi: LEG-08-2001 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Mawrth 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw’r Pwyllgor at y papur cyngor cyfreithiol ar y cyd a gyflwynwyd i Grwp Adolygu Gweithdrefnau’r Cynulliad gan y Cwnsler Cyffredinol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol y Llywydd mewn ymateb i bapur y Pwyllgor. Fe’i dosbarthwyd fel papur i’w nodi. Disgwylir i’r papur gael ei drafod gan y Grwp Adolygu yn eu cyfarfod ar 9fed Mai. Roedd Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor wedi paratoi papur mewn ymateb. Gofynnodd y Clerc i’r

aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar y papur ar y cyd iddo cyn diwedd Ebrill os oeddent yn ychwanegol at sylwadau'r Ymgynghorydd Cyfreithiol neu'n wahanol iddynt. Mewn ymateb i fynegiant cyffredinol o siom i'r papur barn gyfreithiol ar y cyd, nododd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn trafod y mater mewn cyfarfod maes o law.

2.2 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at lythyr a anfonodd at y Llywydd yn ymwneud â mynychu'r Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoliadau ac Archwilio Deddfwriaeth i'w chynnal yn Sydney rhwng 9fed a 13eg Gorffennaf. Roedd y Llywydd wedi cymeradwyo presenoldeb yn y gynhadledd yn amodol ar werthusiad terfynol o'r rhaglen lawn.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC207 – Rheoliadau Cyfyngu Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 2) (Cymru) 2001**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC207 (Adroddiad).

**LC208: Rheoliadau Cyfyngu Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 3) (Cymru) 2001**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC208 (Adroddiad).

**LC209: Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3) 2001**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad. Nododd y Pwyllgor na fyddai cyfieithiad Cymraeg yn cael ei ddarparu ar gyfer y Gorchymyn hwn gan y deellir y bydd

Gorchymyn 1983 yn cael ei ddiwygio cyn hir. Fodd bynnag, mynegwyd pryder bod y methiant i lunio gorchmynion diwygio cyfredol ar ffurf ddwyieithog yn anghydfynd â pholisi’r Cynulliad mewn perthynas â deddfwriaeth ddwyieithog. Roedd yr enghraifft bresennol yn enghraifft bellach o beidio â chydymffurfio â’r ymrwymiad hwn.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC209 (Adroddiad).

**LC210 Gorchymyn Clwy’r Traed a’r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 4) 2001**
3.10 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.11 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i’w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae’r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnwys paragraff ychwanegol (5) ar ôl paragraff (4) yng Nghymal 3 Gorchymyn 1983. Fodd bynnag, nid ymddengys fod paragraff (4) yn bodoli. Mae’n debyg mai enghraifft o ddrafftio diffygiol oedd hwn.

3.12 Cytunodd yr aelodau i weithredu’r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Mae hyn yn darparu, cyn adrodd yn ôl i’r Cynulliad fod angen iddo roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, bod yn rhaid i’r Cadeirydd yn gyntaf hysbysu’r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn gyntaf o fwriad y Pwyllgor i wneud adroddiad o’r fath a rhoi’r cyfle i’r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu’n ysgrifenedig. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

**LC176 – Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001**
3.13 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Trafodwyd y Rheoliadau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27ain Chwefror, pan nododd y Pwyllgor ddau bwynt a oedd yn golygu bod y drafftio’n ddiffygiol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chynnwys diffiniad o "awdurdod bwyd" nad oedd yn berthnasol i Gymru, tra bod yr ail yn ymwneud ag anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a’r un Saesneg. Ailddrafftiwyd y Rheoliadau gan ymgorffori’r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor.

3.14 Nododd y Pwyllgor fod testun Cymraeg yr Atodlen wedi’i hepgor mewn camgymeriad o’r copi a osodwyd gerbron. Deallwyd y byddai hynny’n cael ei gywiro ac felly, yn ddibynnol ar wneud y cywiriad angenrheidiol, naill ai drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau neu fel arall, bu modd i’r Pwyllgor adrodd nad oedd angen iddo alw ar y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC176 (Adroddiad).

**LC211 – Cynllun Grant Ailstrwythuro’r Diwydiant Moch (Cymru) 2001**

3.16 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i weld drafft cynnar o’r Rheoliadau ac roeddent wedi nodi nifer o bwyntiau a ymgorfforwyd yn y drafft terfynol.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC211 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3ydd Ebrill 2001.

**Adroddiadau a Atodir**

- LC207 (Adroddiad)
- LC208 (Adroddiad)
- LC209 (Adroddiad)
- LC211 (Adroddiad)
- LC176 (Adroddiad)